Teitl:	**Gweithiwr Cymdeithasol – Tîm Lleoli**
Lleoliad:	**Gweithio Ystwyth / Heol Beaufort, Glynebwy**
Cyfarwyddiaeth:	**Gwasanaethau Cymdeithasol**
Rhif y Swydd:	**BG03521**
Cyflog:	**Gradd 8 (£36,298 - £40,478)**
Oriau:	**37**
Contract:	**Secondiad neu gyfnod penodol o 12 mis**

Crynodeb o'r Swydd:

Mae angen gweithiwr cymdeithasol cymwysedig i gyflenwi ar gyfer staff ar eu gwyliau yn y tîm lleoli. Mae dyletswyddau'n cynnwys asesu, goruchwylio a chefnogi gofalwyr maeth, gan gynnwys gofalwyr sy'n berthnasau, a recriwtio gofalwyr maeth.

Hysbyseb Lawn

Mae Tîm Lleoli Blaenau Gwent yn dîm deinamig a blaengar sy'n barod i ymgymryd â'r heriau newydd o faethu yng Nghymru. Mae arnom angen gweithiwr cymdeithasol cymwysedig sydd â'r weledigaeth a'r ymrwymiad i asesu a chefnogi gofalwyr maeth i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn cael y canlyniadau gorau posibl.

Mae'r rôl hon yn canolbwyntio ar y gwaith o recriwtio, asesu, cymeradwyo, cefnogi a goruchwylio gofalwyr maeth, gan gynnwys pobl gysylltiedig, yn ogystal â sicrhau bod plant yn parhau i fod wrth wraidd popeth a wnawn. Byddwch yn paratoi a chyflwyno asesiadau i'r panel maethu ac yn nodi lleoliadau i blant fel sy'n briodol i'w hanghenion. Byddwch yn gweithio mewn partneriaeth â gweithwyr proffesiynol eraill er mwyn darparu lleoliadau sy'n cadw plant yn ddiogel.

Mae'n hanfodol bod â diploma mewn gwaith cymdeithasol (neu gyfwerth) a bod wedi'ch cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru neu gorff cyfatebol. Derbynnir ceisiadau gan weithwyr newydd gymhwyso sydd wedi cael o leiaf un lleoliad mewn lleoliad plant a theuluoedd.

Mae prif gyfrifoldebau'r swydd yn cynnwys:

- Cwblhau asesiadau o ddarpar ofalwyr maeth a chyflwyno'r asesiad yn ein panel maethu

- Cwblhau asesiadau o ffrindiau ac aelodau o'r teulu i ofalu am blant o dan orchmynion gofal neu orchmynion gwarcheidiaeth arbennig a chyflwyno'r asesiadau hyn i'r panel maethu a'r llys teulu
- Goruchwylio a chefnogi gofalwyr maeth, gan gynnwys gofalwyr maeth sy'n berthnasau, i ddiwallu anghenion y plant sydd yn eu gofal
- Helpu i gyflwyno hyfforddiant i ofalwyr mewn grwpiau neu yng nghartref y gofalwr
- Bod ar gael i gefnogi gofalwyr trwy ein llinell gyngor
- Helpu i recriwtio gofalwyr maeth newydd

Mae angen cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru dan gategori Rheolwyr Gofal Cymdeithasol/Gweithwyr Cymdeithasol ar gyfer y swydd hon a bydd angen cofrestru cyn dechrau yn y swydd. Mae gwybodaeth ar sut i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar gael ar y wefan ddilynol **https://socialcare.wales**

Gwneir sgrinio cyn-gyflogaeth trylwyr yn ystod y broses recriwtio. Bydd yn ofynnol i ddeiliad y swydd gwblhau cais datgelu cofnodion troseddol.

Mae'r swydd yn un a nodwyd i fod yn addas ar gyfer "gweithio ystwyth", lle mae disgwyl i ddeiliaid swyddi weithio gartref a hefyd gael mynediad at ofod swyddfa, gyda disgwyliad y byddant yn gweithio o swyddfa yn dibynnu ar anghenion y gwasanaeth.

Dyddiad Cau: **25/05/2023**

Dyddiad y Cyfweliad: **TBC**